# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 4ydd 2022 yn Neuadd Mynach Yn bresennol oedd Maldwyn Jones, Eifion Davies, Bethan Thomas, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Dewi Pritchard a Gwenda Morris.

Cydymdeimlwyd a Gwynedd Jones yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf:-
i) Roedd Dwr Cymru wedi trefnu i glirio'r llanast wrth ochr Llyn Celyn ac yn y broses o brisio'r gwaith o drwsio'r ffens o gwmpas y garreg goffa ger y llyn.
ii) Roedd Ysgol Bro Tryweryn wedi gyrru neges i Gyngor Gwynedd i'w hatgoffa fod angen trwsio'r ffordd fach ger yr ysgol.
iii) Roedd Swyddog Llwybrau Cyhoedd Cyngor Gwynedd yn parhau i geisio datrys y problemau gyda'r camfeydd ar y llwybrau cyhoeddus yn ardal Cefnddwysarn.
iv) Goryrru ar yr A494 - roedd y Clerc wedi cysylltu â chynghorau Bala a Llanuwchllyn i drafod y posibilrwydd o gydweithio i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i roi cyfyngiadau cyflymder ar yr A494.

b) Mynwentydd.
Trefnwyd i ail ymweld â'r mynwentydd i archwilio'r cerrig beddi.

c) Gweithdai Ardal Ni 2035.
Cafwyd adroddiad gan Bethan Thomas a oedd wedi mynychu'r gweithdy.

ch) Les Neuadd Sarnau.
Eglurodd y clerc ei bod wedi mynychu cyfarfod gyda phwyllgor y neuadd ac roedd y les rhwng y ddau wedi cael ei arwyddo.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.
i) Dwr Cymru - Gwahoddiad i sesiwn friffio ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn. Cytunodd Alwyn Jones a Bethan Thomas fynychu'r sesiwn friffio.
ii) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch cronfa ddŵr Llyn Tegid.
iii) Parc Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad ardaloedd cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
iv) Cyngor Gwynedd – Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau wedi eu cyflwyno.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Adroddiad Ariannol.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau
i) Cytunwyd i dalu:
a) Cyngor Gwynedd (cost etholiad Mai 2022).
b) Cyflog a chostau'r clerc.
c) TWE.

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Hosbis Tŷ Gobaith. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cais am arwydd 'Dim parcio, man troi yn unig' yn ystâd Glan Tryweryn, Frongoch.
ii) Canghennau coed angen eu torri ar y ffordd rhwng Ysgol Ffridd y Llyn a phentref Llandderfel.
iii) Cyflwr yr A494 rhwng cyffordd Llandderfel a Hen Hafod, Llanfor.
iv) Gwrych angen ei dorri i wella gwelededd gyrwyr sy'n ymuno a'r A494 yng Nghefnddwysarn o gyffrôdd Cwm Main

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: ………………………………………….  Dyddiad: …………………………………..